

## CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuencid Tysul Youth Centre, Llandysul, ar 14eg Hydref 2013

Minutes of Annual Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held at Canolfan Ieuencid Tysul Youth Centre, Llandysul, on 14<sup>th</sup> October 2013

**Yn Bresennol/Present:** Cyng/Cllrs Mrs Rhiannon Ainsworth Tom Cowcher Mrs Eileen Curry Douglas Davies Mrs Philippa Davies Wyn Evans Terry Griffiths Andrew Howell Aled Jones Mrs Carolyn Reed-Rees a/and Cyng Sir/ C Cllrs Peter Evans

- 1 Cafwyd **Ymddiheuriadau** gan Gynghorwyr Keith Evans a Breian Teifi a Chynghorydd Sir Peter Davies
- 2 **Datgelu Buddiannau** Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau.
- 3 Derbyniwyd bod **Cofnodion** y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 13 Medi 2013 yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.
- 4 **Materion yn Codi:-**  
**Baw Cŵn** – Cafwyd llythyr gan Ymddiriedolwyr y Parc ac fe'i anfonwyd ymlaen at yr aelodau yn ein hysbysu am ddigwyddiad yn y parc, lle'r oedd ci wedi ymosod ar fenyw sy'n byw gerllaw, yn y parc, gan dorri ei choes. Penderfynodd y Cyngor y dylai'r clerc ysgrifennu at berchnogion y ci gan ofyn iddynt gadw'r cŵn ar dennyn, oherwydd y gallai fod yn blentyn y tro nesaf. Cyn i'r clerc wneud hyn, bydd yn ceisio cyngor gan Un Llais Cymru i weld a fyddai'n ddoeth gwneud hynny neu a ddylai'r llythyr gael ei anfon gan y Pwyllgor Chwaraeon ac Ymddiriedolwyr y Parc.
- 7 **Apologies** were received from Cllrs Keith Evans and Breian Teifi and County Councillor Peter Davies
- 8 **Declarations of Interest** There were no declaration of interest.
- 9 **Minutes** of the monthly meeting held on 13<sup>th</sup> September 2013 were accepted as correct and signed by the Chair.
- 10 **Matters Arising:-**  
**Dog Fouling** – A letter was received from the Park Trustees and forwarded to members informing of an incident that had happened in the park where a lady living nearby was attacked by a dog in the park resulting in the lady breaking her foot. The Council decided that the clerk write to the owners of the dog owners asking for the dogs to be kept on a lead as it could be a child next time. Before the clerk does this she will seek advice from One Voice Wales to see if it is advisable to do so or should the letter be sent from the Sports Committee and the Park Trustees.

Yn dilyn y cyfarfod, cafwyd un dyfynbris er mwyn codi ffens a fyddai'n amlinellu ffin y parc. Gan bod Cyngor Sir Ceredigion yn ystyried Gorchymyn Rheoli Cŵn, penderfynwyd y dylid aros nes yr adeg honno cyn symud ymlaen.

Cadarnhaodd PCSO Siân Davies ei bod wedi cael y gwarantau.

Adroddwyd bod y clerc wedi anfon dogfennau ymlaen at yr holl aelodau ynghylch Is-Ddeddfau a Rheoli Cŵn.

Fferm Wynt, Pantydefaid - Yn dilyn adroddiad yr ecolegydd, adroddwyd bod

Following the meeting one quote has been received for erecting a fence to outline the boundary of the park. It was decided as Ceredigion County Council was looking into a Dog Control Order to wait until that point before proceeding.

PCSO Sian Davies confirmed that she had received the warrants.

It was reported that the clerk had forwarded documents on Bylaws and Dog Control to all members.

Wind Farm, Pantydefaid - It was reported that following the ecologists report that nest had been located at the proposed sight. A

nyth wedi cael ei ddarganfod yn y lleoliad arfaethedig. Byddai'n rhaid cynnal arolwg ym mis Ebrill neu fis Mai 2014.

Toiledau Sgwâr Bradford Cafwyd neges e-bost gan Jasmine Wilson yn hysbysu'r Cyngor y byddent yn gyfrifol am y costau Trwsio a Chynnal a Chadw a'r costau yswiriant os byddent yn penderfynu mabwysiadu'r cyfrifoldeb dros y toiledau. Penderfynwyd cynnwys y mater ar agenda cyfarfod y mis nesaf a gofyn i'r clerc gael y costau yswiriant.

**5 Rhoddion** – Roedd yr aelodau yn siomedig i glywed yn y wasg leol bod digwyddiadau lleol yn rhoi arian i achosion eraill er eu bod wedi cael rhoddion eu hunain.

(i) Eglwys St Ioan, Pont-siân (a145) Cynigiodd Cyng Andrew Howell y dylem roi £1000 ac eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng Carolyn Reed-Rees.

(ii) Ysgol Gynradd Llandysul – Gofynnwyd am rodd er mwyn prynu ipads at ddefnydd cymunedol. Penderfynwyd peidio rhoi rhodd a gofyn i'r ysgol a oeddent wedi ceisio cael arian gan unrhyw ffynonellau eraill. Roedd Cyng Aled Jones a'r clerc, Nia Davies, yn absennol yn ystod y drafodaeth hon.

(iii) Tân gwyllt Penderfynwyd rhoi £250 tuag at noson tân gwyllt Llandysul. Cynigiwyd hyn gan Gyng Wyn Evans ac fe'i Eiliwyd gan Gyng Philipa Davies.

(iv) Cafwyd Cydnabyddiaeth derbyn rhodd:- Cymdeithas Hanes Llandysul a'r Fro - £300 Carnifal Llandysul - £500 Grŵp Sgowntiaid Iaf Llandysul - £1500 Canolfan Geufad Llandysul – £1000

Diolch Cafwyd carden diolch gan Garnifal Llandysul, Sioe Llandysul a Sioe Pren-gwyn am yr addewid y byddai rhodd yn cael ei roi i'r digwyddiadau amrywiol.

## **6 Gohebiaeth**

Negeseuon e-bost – Gweler rhestr sydd ynghlwm o'r negeseuon e-bost a anfonwyd at y clerc ac a anfonwyd ymlaen at yr aelodau rhwng 9 Medi ac 14 Hydref.

Cafwyd y canlynol gan **Geredigion:-** Archwiliad o'r ddarpariaeth a gynigir ar draws y sir ar gyfer pobl hŷn.

**Cyngor Sir Gâr:-**

Cyflwyno Cynllun Datblygu Lleol Sir

survey would have to be done in April or May 2014.

Bradford Square Toilets An email was received from Jasmine Wilson informing the Council that if they decided to take on the toilets they would be responsible for the Repair and Maintenance costs and all insurance costs involved. It was decided to place the matter on next month's agenda and ask the clerk to get the insurance costings.

**11 Donations** – Members were disappointed to hear in the local press that local events were donating money to other causes even though they were given donations themselves.

(v) St Ioan Church, Ponsian (s145) Cllr Andrew Howell proposed that we donate £1000 this was seconded by Cllr Carolyn Reed-Rees.

(vi) Llandysul Primary School – A donation was asked to purchase ipads for community use. It was decided not to give a donation and ask the school if they had tried any other avenues of funding. Cllr Aled Jones and clerk Nia Davies was absent when this was discussed.

(vii) Fireworks It was decided to donate £250 towards the Llandysul firework display. This was proposed by Cllr Wyn Evans and Seconded by Cllr Philipa Davies.

(viii) Acknowledgement of receipt of donation were received :-Cymdeithas Hanes Llandysul a'r Fro - £300 Llandysul Carnival - £500 1<sup>st</sup> Llandysul Scout Group - £1500 Llandysul Paddlers Canoe Centre – £1000

Thanks Thank you card was received from Llandysul Carnival, Llandysul Show and Prengwyn Show for the promise of a donation towards the various events.

## **12 Correspondence**

Emails – Find attached a list of all the emails sent to the clerk and forwarded to members from 9th September until the 14th October.

The following were received from **Ceredigion:-** An audit of provision that is offered across the county for older people.

**Carmarthenshire County Council:-** Submission of Carmarthenshire Local Development Plan for Examination.

**Welsh Government** – Designated Persons

Gaerfyrddin i'w Archwilio.

**Llywodraeth Cymru** – Gorchymyn Person Penodol.

**Ras dros yr Iaith** – Cafwyd llythyr yn hysbysu'r Cyngor bod y Ras wedi cael ei chanslo tan fis Mehefin neu Orffennaf nesaf.

**Western Power Distribution** – Llythyr ynghylch y goleuadau Nadolig yn Llandysul. Penderfynwyd cysylltu â Derwen

Lighting ac y bydd Cyng Breian Teifi yn gwneud y trefniadau angenrheidiol.

**Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru** – Cynllun gwella blynyddol drafft awdurdod tân ac achub Canolbarth a Gorllewin Cymru 2014-2015.

**Glasdon** – Copi o daflen hysbysebu mis Medi.

**Banc National Westminster** – Ffurflen cyfrif y Cadeirydd i'w llenwi gan y llofnodwyr.

**ULIC** – Hysbysiad o Gyfarfod Pwyllgor Ardal Ceredigion a gynhelir ar 23 Hydref 2013. Bydd Cyng Andrew Howell yn mynychu

Cafwyd Clerks & Councils Direct

**Anfonebau**

**Linos Jones** – Cafwyd anfoneb am y swm o £146.05 am y gwasanaeth cyfieithu ym mis Medi a derbyniwyd y dylid ysgrifennu sic i'w thalu.

**Farmyard Nurseries** – Cafwyd anfoneb am y swm o £3061.90 am waith plannu mewn dysglau plannu yn Llandysul ar gyfer Cyfnod y Gaeaf 2011 tan y Gwanwyn 2013 a derbyniwyd y dylid ei Thalu. Penderfynwyd y dylem ofyn am anfonebau ar ddiwedd pob cyfnod plannu.

**D W Evans** – Cafwyd anfoneb am dorri prysgwydd. Penderfynwyd talu'r anfoneb ar ôl cael cadarnhad bod Stryd Ffynnon wedi cael ei thorri.

**Sioe Pren-gwyn** rhodd o £500.

**P Davies** – Talu anfonebau Balchder Pentrefi, sef £259.

**N Davies** – £33.60 am gostau postio

- Gwefan** – Adroddwyd bod y gwaith wedi cychwyn ar y wefan newydd a bod y clerwr wedi anfon neges e-bost at yr aelodau yn gofyn am unrhyw fewnbwn sydd ganddynt.
- Ciosgau Coch** – Dim diweddariadau pellach.
- Balchder Pentrefi** Cafwyd lluniau drafft o'r byrddau yn y parc ac anfonwyd copïau at yr holl gynghorwyr mewn neges e-bost.

Order.

**Run for the Language** – A letter informing the Council that the Run had been cancelled until next June or July.

**Western Power Distribution** – A letter regarding the Christmas lighting in Llandysul. It was decided to contact Derwen Lighting and Cllr Breian Teifi to make the necessary arrangements.

**Mid and West Wales Fire and Resuce** – Mid and West Wales fire and rescue authority draft annual improvement plan 2014-2015.

**Glasdon** – Copy of the September flyer.

**National Westminster Bank** – Chairmans account form to be filled in by the signatures.

**OVW** – Notification of the Ceredigion Area Meeting on 23<sup>rd</sup> October 2013. Cllr Andrew Howll will be attending.

Clerks & Councils Direct were received

**Invoices**

**Linos Jones** – Invoice for September translation was received for the sum of £146.05 and cheque was passed for Payment.

**Farmyard Nurseries** – Invoice for planting of tubs in Llandysul for the Period Winter 2011 to Spring 2013 for the sum of £3061.90 was received and passed for Payment. It was decided that we ask for invoices at the end of every planting period.

**D W Evans** – Invoice was received for brushcutting. It was decided to pay the invoice when it was confirmed that Well Street had been cut.

**Prengwyn Show** £500 donation.

**P Davies** – Payment of £259 Balchder Pentrefi invoices.

**N Davies** – £33.60 for postage costs

- Website** – It was reported that the new website was underway and that the clerk had emailed members for any input that they might have.
- Red Kiosks** – No further updates.
- Balchder Pentrefi** Draft pictures of the park boards had been received and copies emailed to all councillors. All works were nearly completed and all Councillors were informed that the invoices needed to be received by the council no later than 31 October 2013.

Roedd yr holl waith ar fin cael ei gwblhau a hysbyswyd yr holl Gynghorwyr o'r ffaith bod angen i'r cyngor gael yr anfonebau erbyn 31 Hydref 2013 fan bellaf.

**10. Cynllunio** Bydd Mr Richard Duggan o Gyngor Sir Ceredigion yn mynychu sesiwn hyfforddant ynghylch Cynllunio ym mis Ionawr. Gofynnwyd i'r holl aelodau ddarparu cwestiynau yr hoffent eu gofyn ynghylch cynllunio cyn mis Rhagfyr.

Penderfynwyd y dylai'r clerc wahodd Cynghorau Cymuned Troed-yr-aur, Llandyfrïog a Llanwenog i'r hyfforddiant.

**11. Sul y Cofio** Cafwyd llythyr yn hysbysu'r Cyngor y cynhelir gwasanaeth Sul y Cofio eleni ar 10/11/13. Bydd yr orymdaith yn cychwyn o'r maes parcio am 10.45am ac yn cyrraedd yr eglwys erbyn 11.00am. Bydd y Cadeirydd, Cyng Tom Cowcher, yn gosod y dorch ar ran y Cyngor.

Hysbyswyd y Cyngor gan Gyng Terry Griffiths na fyddai ef yn ymwneud ag unrhyw weithgareddau gydag Eglwys Llandysul mewn perthynas â Sul y Cofio.

**12 Cynllunio:** Cafwyd hysbysiad am Gyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygiad.

(Fel Cynghorwyr Sir, roedd Cynghorwyr Peter Davies a Peter Evans yn dymuno cofnodi nad oeddent mewn mynegi barn mewn perthynas ag unrhyw rai o'r Ceisiadau Cynllunio a'u bod wedi gadael y cyfarfod ar yr adeg hon).

Cymeradwywyd y cynlluniau canlynol dan Awdurdod dirprwyedig ac ni wnaethpwyd unrhyw wrthwynebiadau iddynt:-

A130727 – Sied cynhwysydd gyferbyn â'r mynediad i'r ganolfan deuluoedd

A130707 – Adeiladu un annedd fforddiadwy - tir gerllaw Tyddyn Gwyn, Rhydowen

A130718 – Trawsnewid garej yn rhandy ar gyfer perthynas oeddrannus – County Gate, Llanfihangel-ar-arth

A130696 – Adeiladu annedd - Llain gerllaw Capel Bethel, Capel Dewi

Bydd yr Apêl canlynol dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 - Adran 78, i Ddiddymu amod amaethyddol 6 cais cynllunio D532 Frondeifi, Llanfihangel-ar-arth yn cael ei glywed gan wrandawiad anffurfiol ar 17/12/13.

**10. Planning** Mr Richard Duggan from Ceredigion County Council will be attending a training session on Planning in January. All members were asked to provide questions that they would like answered with regards to planning before December.

It was decided that the clerk invite Troedyraur, Llandyfyriog and Llanwennog Community Council to the training if they wish.

**11. Remembrance Sunday** A letter was received to inform the Council that this years Remembrance Sunday service will be on the 10/11/13 with the procession commencing at 10.45am from the car park and arriving in church by 11.00am. Chairman Cllr Tom Cowcher will be laying the wreath on behalf of the Council.

Cllr Terry Griffiths informed the Council that he would not be involved in any activities involved with Llandysul Church with regards to the Remembrance Service.

**12 Planning:** Notice of the Development Control Committee Meeting was received.

(Cllrs Peter Davies and Peter Evans as County Councillors wished to record that they had not expressed an opinion in connection with any of the Planning Applications and left the meeting at this stage).

The following plans were approved under delegated Authority, there were no objections:-

A130727 – Container shed opposite entrance to family centre

A130707 – Erection of single affordable dwelling – land adjacent to Tyddyn Gwyn, Rhydowen

A130718 – Conversion of garage to annex for elderly relative – County Gate, Llanfihangel-ar-arth

A130696 – Erection of dwelling- Plot adjacent to Capel Bethel, Capel Dewi

The following Town & County Planning Act 1990 –Section 78 Appeal Removal of agricultural condition 6 of planning application D532 Frondeifi, Llanfihangel ar Arth is to be heard by an informal hearing on the 17/12/13.